**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PRIF WEITHREDWR)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ar 21ain Ebrill 2009 am 12.30p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr E W Williams (Cadeirydd), J Butterfield, C M Evans, H H Evans, R W Hughes, I Gunning, M M Jones, P J Marfleet, A G Pennington a J Thompson-Hill.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Personél, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Personél (L M Jones) ac L Judd (Gatenby Sanderson).

**YMDDIHEURIADAU**

Dim

**RHAN I**

**896 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**897 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill 2009.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill 2009 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

**898 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraffau 12, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.*

**RHAN II**

**899 PENODI PRIF WEITHREDWR – RHESTR FER DERFYNOL**

Gofynnwyd i bob un o'r pedwar ymgeisydd ymateb i nifer o gwestiynau penodol. Ar ôl cwblhau'r broses honno, ystyriodd y Panel yr ymatebion i'r cwestiynau, gyda chymorth Mr L Judd, a phenderfynu gwahodd ymgeisydd 10 i fynd ymlaen i gyfweliad terfynol gan y Cyngor Llawn ar ddydd Mercher 22ain Ebrill 2009.

***PENDERFYNWYD***

*gwahodd ymgeisydd 10 i gyfweliad terfynol gan y Cyngor Llawn ar ddydd Mercher 22ain Ebrill 2009.*

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 p.m.

*******